Ydych chi'n cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 366 (Cymru) – 10 Ebrill 2024

Deddf Etholiadau: ffurflenni a llythyrau

Yn unol â'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022, rydym wedi cynhyrchu diweddariadau i'n ffurflenni Gwahoddiad i Gofrestru ac wedi creu'r templedi llythyrau Adolygiad Cadarnhad Cymhwysedd newydd i weithredu'r newidiadau i'r etholfraint ar gyfer dinasyddion yr UE ledled Cymru a Lloegr.

Hoffem amlinellu'r newid mwyaf arwyddocaol i'r ffurflenni Gwahoddiad i Gofrestru yng Nghymru. Y newid mwyaf arwyddocaol yw cyflwyno Cwestiwn Preswyliad Hanesyddol cynhwysfawr. Mae'r cwestiwn hwn yn ofyniad cyfreithiol angenrheidiol i alluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i benderfynu a yw dinasyddion gwledydd UE19 yn gymwys i gofrestru i bleidleisio yn Lloegr.

Mae llythyrau'r Adolygiad Cadarnhad Cymhwysedd wedi'u creu ochr yn ochr â'r ffurflenni Gwahoddiad i Gofrestru i sicrhau bod yr holl ofynion deddfwriaethol yn cael eu bodloni ar draws y gyfres lawn o lythyrau a ffurflenni. Bydd llythyrau'r Adolygiad Cadarnhad Cymhwysedd yn cael eu hanfon o 7 Mai at rai o ddinasyddion yr UE sydd wedi cofrestru i bleidleisio yng Nghymru a Lloegr. Bydd y llythyrau'n gofyn i'r pleidleisiwr am wybodaeth am ei statws mewnfudo er mwyn galluogi'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i wirio ei gymhwysedd i aros yn gofrestredig yn Lloegr, neu i wirio ei gymhwysedd i bleidleisio mewn etholiadau CHTh yng Nghymru.

Mae geiriad y Cwestiwn Preswyliad Hanesyddol a'r llythyrau Adolygiad Cadarnhad Cymhwysedd wedi cael eu profi gan ddefnyddwyr ac mae'r Cwestiwn Preswyliad Hanesyddol hefyd wedi bod yn destun ymchwil defnyddwyr i sefydlu'r geiriad gorau ar gyfer dealltwriaeth defnyddwyr. Maent hefyd wedi cael cymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Deddf Etholiadau: ffurflenni a llythyrau: Gwybodaeth am ddiweddariadau i'n cyfres o ffurflenni Gwahoddiad i Gofrestru a llythyrau Adolygiad Cadarnhad Cymhwysedd ar gyfer pleidleiswyr.

Etholiadau mis Mai 2024: Cynllun Arsyllwyr: Cadarnad mai'r diwrnod olaf i wneud cais i fod yn arsyllwr etholiadol achrededig cyn etholiadau mis Mai fydd dydd Iau 18 Ebrill 2024.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n sianeli allweddol ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o Fwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf

Gellir gweld sampl o'r ffurflenni Gwahoddiad i Gofrestru drafft YMA i roi golwg gynnar i chi o gynnwys y ffurflen, a gellir gweld y llythyrau Adolygiad Cadarnhad Cymhwysedd YMA hefyd, cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym ddydd Mawrth, 7fed Mai, 2024. Mae'r hysbysiad ymlaen llaw hwn yn hefyd i ganiatáu i chi gytuno ar dempledi gydag argraffwyr allanol, os oes angen.

Bydd y set lawn o ffurflenni Gwahoddiad i Gofrestru yn cael eu cyhoeddi ar ein tudalen we sy'n wynebu pleidleiswyr, ar ddyddiad gweithredu'r ddeddfwriaeth. Bydd fersiynau glân ein llythyrau Adolygiad Cadarnhad Cymhwysedd ar gael ar ein gwefan (Ffurflenni a llythyrau cofrestru | Y Comisiwn Etholiadol) ar ddyddiad mynd yn fyw y ddeddfwriaeth.

Mae'r ffurflenni a'r llythyrau wedi'u rhannu â chyflenwyr Meddalwedd Rheoli Etholiadol i gefnogi eu gwaith paratoi cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym; fodd bynnag, ni ddylid rhannu'r ffurflenni sampl â'r cyhoedd na'u defnyddio i gyflwyno ceisiadau.

Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.

Etholiadau Mai 2024: Cynllun Arsyllwyr

Dyddiad Cau Ceisiadau Arsyllwyr - Ebrill 18

Sylwch ein bod wedi rhoi tan ddydd Iau 18 Ebrill i ymgeiswyr wneud cais i gael eu hachredu fel arsyllwyr etholiadol cyn yr etholiadau ar 2 Mai.

Byddwn yn cyhoeddi'r cofrestrau diweddaredig o arsyllwyr achrededig sy'n gymwys i arsylwi'r etholiadau ar 2 Mai erbyn dydd Gwener 26 Ebrill fan bellaf.

Rhoi Hysbysiad o Ble Rydych yn Bwriadu Arsylwi

Mae ein Cod Ymarfer yn amlygu i arsylwyr y gall rhoi hysbysiad ymlaen llaw o ble maent yn bwriadu arsylwi eu cynorthwyo i wneud arsylwadau mwy effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i arsylwyr etholiadol roi rhybudd ymlaen llaw o ble maent yn bwriadu arsylwi ac maent yn rhydd i wneud ymweliadau dirybudd.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Llawr 3, Tŷ James William
9 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd
CF10 3BD
Ffôn: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk
© Y Comisiwn Etholiadol 2024